Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# Canolfan Ddeintyddol Holton

25 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3596-4


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 19

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Holton, yn 157 Ffordd Holton, Y Barri yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 25 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Holton yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Y Barri ym Mro Morgannwg. Mae’r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro. Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd deintyddol, pum nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd pwrpasol. Mae dwy o'r nyrsys deintyddol hefyd yn gweithio fel derbynyddion. Mae un o'r deintyddion yn ymgymryd â hyfforddiant deintyddol am flwyddyn o dan arweiniad deintydd sydd sy'n fwy profiadol yn y practis. Mae'r practis yn cael ei reoli gan reolwr practis profiadol ac mae'n eiddo i brif ddeintydd sy'n gweithio mewn chwaer-bractis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion y GIG a chleifion sy'n talu'n breifat, yn ogystal â chleifion sydd wedi ymuno â'r cynllun talu 'Denplan'. Mae tua thri chwarter o'r cleifion yn derbyn triniaeth y GIG.

Gan fod Canolfan Ddeintyddol Holton yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn destun i ddarpariaethau'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Canolfan Ddeintyddol Holton yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yng Nghanolfan Ddeintyddol Holton, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth yn yr holiaduron cleifion, a sylwadau a wnaed gan y cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, yn gadarnhaol am bob maes gofal.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon uchel iawn yn gyffredinol. Gwnaethom argymhellion i wella elfennau o weithdrefn ddadheintio'r practis.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis newydd dod i feddiant y perchennog presennol, ond nid oedd yn gweithio yn y practis. Roedd rheolwr practis profiadol yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm a dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn hapus ac yn derbyn hen ddigon o gymorth yn eu swyddogaethau.

Dylai'r practis ddiweddaru'r weithdrefn bryderon (cwynion) er mwyn iddi'n adlewyrchu trefniadau *'Gweithio i Wella'* y GIG yn llawn.

Gwelsom fod y practis deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion. Nid oedd deintyddfa ar gael ar lawr daear y practis ac nid oedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yng Nghanolfan Ddeintyddol Holton, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth yn yr holiaduron cleifion a sylwadau a wnaed gan y cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn gadarnhaol am bob maes gofal.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i’r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. At hynny, gwnaethom siarad â phedwar claf a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Dychwelwyd 20 o holiaduron. Roedd y cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron ac wedi siarad â ni wedi defnyddio'r practis deintyddol ers rhwng tri mis a 35 o flynyddoedd.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol yn unfrydol. Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn, a'u bod yn teimlo bod croeso iddynt gan staff y practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion gan gynnwys plentyn ifanc mewn modd croesawgar, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Bodlon iawn, dim cwynion, rydw i wastad wedi bod yn fodlon ar y gwasanaeth."*
>
> "Gwasanaeth dosbarth cyntaf yn y practis hwn. Rydw i'n hapus iawn am bob agwedd ar fy nhriniaeth."
>
> *"Rydw i'n glaf nerfus ac mae'r staff wastad yn tawelu fy meddwl am apwyntiadau a thriniaethau."*
>
> *"Mae'r deintydd a'r nyrs yn esbonio unrhyw driniaeth sydd ei hangen mewn iaith sy'n hawdd ei deall."*
>
> *"Rydw i mor falch ar y practis, rwy’n teithio tua 50 milltir y ddwy ffordd i ymweld."*
>
> *"Practis da sy'n groesawgar iawn."*

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu gallai'r cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn

gyflym pe baent yn teimlo poen. Atgoffir y cleifion am eu hapwyntiad gan wasanaeth neges destun.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad ydynt wedi profi unrhyw oediad sylweddol wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y staff ddisgrifio'r ffordd y byddent yn hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr, fel bod y cleifion yn gwybod cyn gynted â phosibl pe bai oediad.

Roedd pob claf yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a dywedodd un ei fod yn derbyn *"esboniad trylwyr am yr holl driniaeth mewn iaith syml"* a dywedodd un arall *"mae fy holl gwestiynau'n cael eu hateb yn llwyr".*

Roedd gwybodaeth am y practis ar gael i'r cleifion mewn taflen a oedd yn y dderbynfa.

Dywedwyd wrthym fod aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys un o'r deintyddion, ar gael i'r cleifion sy'n gofyn am hyn.

Nid oes gan y practis wefan, er dywedwyd wrthym gan reolwr y practis fod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno gwefan ar ôl cyfnod o ailfrandio, a ddylai fod wedi'i orffen erbyn diwedd haf 2015. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn edrych ar ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu wrth lunio'i wefan.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn casglu barn y cleifion am ei wasanaeth yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth o holiaduron ar ddesg y dderbynfa i'r cleifion eu cwblhau. Dangosodd rheolwr y practis ffeil o holiaduron wedi'u cwblhau inni, sy'n cael eu hasesu a'u hystyried cyn gynted ag y bydd y practis yn eu derbyn. Gwelsom enghraifft o hyn lle roedd claf wedi nodi nad oedd ansawdd yr adeilad o'r tu allan yn *"cyd-fynd ag ansawdd yr adeilad y tu mewn".* Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod wedi newid y drws blaen ac wedi cyflwyno cais am grant i adnewyddu wyneb yr adeilad.

Er i ni weld cardiau ar ddesg y dderbynfa gan gynnwys rhif gofal deintyddol y tu allan i oriau brys, a gwnaethom gadarnhau bod y rhif ffôn brys yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis, dywedodd 11 allan o'r 24 o gleifion y gwnaethant gwblhau ein holiadur nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn y ffenestr yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt brys a gwelsom hefyd fod y rhif ffôn brys ar hysbysfwrdd yn yr ystafell aros, ond roedd hyn yn eithaf bach ac wedi'i amgylchynu gan hysbysiadau eraill y practis. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn ystyried sut mae'n arddangos gwybodaeth er mwyn i fanylion pwysig fod yn gliriach i'r cleifion.

Pan ofynnwyd ynghylch gwneud cwyn, dywedodd dau draean o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu gwasanaeth deintyddol. Fodd bynnag, dywedodd llawer nad oeddent yn teimlo bod angen lleisio pryder a byddent yn gofyn sut i wneud cwyn pe bai angen gwneud hyn. Gwelsom weithdrefn gwyno'r practis yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Roedd hon wedi'i hysgrifennu mewn ffont eithaf bach, felly gwnaethom awgrymu bod y practis yn ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth, megis yr hysbysiad cwyno, yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon uchel iawn yn gyffredinol. Gwnaethom argymhellion i wella agweddau ar weithdrefn ddadheintio'r practis.**

<u>Cyfleusterau clinigol</u>

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r deintyddfeydd, a chanfod eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Gwnaethom nodi bod yr holl ddeintyddfeydd yn lân ac yn daclus. Roedd yr offerynnau wedi'u storio'n briodol i osgoi halogi.

Roedd offer diogelu personol fel menig untro ac offer diogelu llygaid ar gael i staff eu defnyddio i helpu i atal croes heintio. Roedd sinciau golchi dwylo pwrpasol hefyd ar gael i helpu i reoli heintiau.

Canfuwyd gennym nad oedd y llawr wedi cael ei selio lle mae'n cwrdd â'r wal yn un o'r deintyddfeydd, ac nad oedd rhai o'r arwynebau gwaith wedi'u selio chwaith. Gwelsom nad oedd y llawr wedi cael ei selio'n ddigonol mewn deintyddfa arall. Yn ôl canllawiau'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2], dylid sicrhau nad oes uniadau yn yr arwynebau gwaith na'r llawr, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio. Gwnaethom argymell bod y practis yn mynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig yn Neintyddfa 2 a Deintyddfa 3.

**Y gwelliant sydd ei angen**

***Dylai'r practis sicrhau nad oes uniadau ar unrhyw arwyneb gwaith na'r llawr, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio.***

<u>Dadhalogi</u>

Roedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, a gwelsom fod prosesau addas ar waith i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio. Roedd offer cynhwysfawr ar gael yn yr ystafell hon,

---

[2]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gan gynnwys glanhawr pwrpasol ar gyfer offer llaw a dŵr penodol i'w ddefnyddio yn yr awtoclaf (sterilydd). Roedd sinciau penodol ar gyfer golchi dwylo ar gael, ynghyd ag eitemau untro, er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod ffan echdynnu ar y ffenestr yn cael ei defnyddio a oedd yn achosi aer i lifo o ochr yr ystafell lle roedd offerynnau brwnt yn cael eu glanhau i ochr yr ystafell lle roedd offerynnau glân ac offerynnau wedi'u sterileiddio'n sychu. Mae hyn yn golygu y gallai'r gronynnau brwnt ail-halogi'r offerynnau glân. Gwnaeth y practis ddiffodd y ffan echdynnu ar ddiwrnod yr arolygiad, a gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried symud y ffan i'r nenfwd uwchben y sinciau fel ateb mwy parhaol.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio fel nad yw'n achosi i aer brwnt lifo i'r aer glân.***

Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer wedi'u cynnal a'u cadw, ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau i'w weld mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01.05.

Gwaredu gwastraff

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i fagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu.

Offer radiograffeg

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi ar gael. Nid oedd tystysgrif ar gael i gadarnhau bod dau o'r deintyddion wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Mae'n angenrheidiol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol [3] bod pob person sy'n cofrestru yn mynychu'r hyfforddiant hwn unwaith bob pum mlynedd fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hefyd angen addysg barhaus gan y

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fe'n hysbyswyd bod dau o'r deintyddion hyn wedi'u cymhwyso'n ddiweddar ac wedi derbyn yr hyfforddiant hwn fel rhan o'u hyfforddiant prifysgol. Gwnaethom atgoffa'r practis bod angen i'r deintyddion hyn gwblhau'r hyfforddiant hwn eto o fewn eu pum mlynedd gyntaf o weithio fel deintydd.

Gwelsom yn un o'r deintyddfeydd nad oedd swits ynysu priodol ar gael ar gyfer y peiriant pelydr-x. Mae angen swits ynysu er mwyn diffodd y peiriant pe bai'n camweithio neu pe bai argyfwng. Mae'n bwysig bod y swits hwn y tu allan i'r man sy'n agored i ymbelydredd.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod swits ynysu ar gyfer y peiriant pelydr-x yn Neintyddfa 2 yn cael ei osod y tu allan y man wedi'i reoli.***

Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant am sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (cwympiad) yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at offer achub bywyd a chyffuriau i'w galluogi i ymateb yn brydlon pe bai un o'r cleifion yn cwympo.

Gwnaethom nodi mai dim ond un chwistrellydd awtomatig ('EPI pen') ar gael yn y ddeintyddfa i ymdrin ag adwaith alergaidd difrifol. Pe bai claf yn profi pwl estynedig, mae'n bosibl na fyddai hyn yn ddigon. Felly, gwnaethom argymell bod gan y practis fwy o feddyginiaeth ar gael i'r pwrpas hwn.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod triniaeth ddigonol ar gael yn y pecyn cyffuriau brys ar gyfer anaffylacsis. Awgrymir 1:1000 o ampylau adrenalin a chwistrelli a nodwyddau cyfatebol gan y Cyngor Dadebru (DU).***

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o 12 o gofnodion y cleifion, gan gynnwys cofnodion pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom o safon uchel, yn enwedig y nodiadau hynny a ysgrifennwyd gan y ddau ddeintydd wedi'u cymhwyso'n ddiweddar.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r cofnodion a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Cadarnhaodd trafodaeth â'r

deintyddion y cynhelir sgrinio ar gyfer canser y geg, er nad yw hyn bob amser yn cael ei gofnodi yn y nodiadau a welsom. Gwnaethom edrych ar sut mae'r cleifion yn cael eu gwahodd yn ôl i'r practis ar gyfer archwiliadau, a gweld bod hyn yn briodol er nad yw'n cael ei ddogfennu bob amser. Gwnaethom edrych ar sut roedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi, ac ni welsom gofnod cydsyniad ar gyfer archwiliadau a thriniaethau penodol ym mhob achos.

Gwnaethom argymell y dylai'r deintyddion yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg, dyddiadau ail-alw a chydsyniad parhaus claf ar gyfer triniaeth. Roedd y practis yn defnyddio templed nodiadau clinigol ar gyfer cofnodion y cleifion a gwnaethant ddiweddaru hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, i sicrhau bydd yr holl nodiadau yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol yn y dyfodol.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn pelydrau-x yn ystod cyfnodau amser priodol, a bod ansawdd y pelydrau-x yn cael ei fonitro. Gwelsom dystiolaeth bod gwahanol opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion cyn penderfynu ar gynllun triniaeth y cytunwyd arno.

Gwelsom fod atgyfeiriadau priodol ar gyfer gofal arbenigol yn cael eu gwneud, er nad yw atgyfeiriadau bob amser yn cael eu dilyn. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o bob atgyfeiriad sy'n cael ei wneud er mwyn iddynt sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu derbyn a'u gweithredu.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis greu cofnod o atgyfeiriadau'r cleifion er mwyn iddynt fynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriad a wneir i asiantaethau eraill lle bo'r angen.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis newydd dod i feddiant y perchennog presennol, ond nid oedd yn gweithio yn y practis. Roedd rheolwr y practis profiadol yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd.**

**Roedd gan y practis nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Gwelsom staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm a dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn hapus ac yn derbyn hen ddigon o gymorth yn eu swyddogaethau.**

**Dylai'r practis ddiweddaru'r weithdrefn bryderon (cwynion) er mwyn iddi'n adlewyrchu trefniadau *'Gweithio i Wella*' y GIG yn llawn.**

Gwelsom fod tîm o staff wedi'i sefydlu'n dda yng Nghanolfan Ddeintyddol Holton ac mae rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd. Ar sail ein cyfweliadau â staff a'n harsylwadau, daethom i'r casgliad bod staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn eu gweithle. Roedd hyn yn glir o'r naws gadarnhaol a welsom yn ystod yr arolygiad hwn.

Dywedodd y staff nyrsio a staff y dderbynfa eu bod yn derbyn arfarniad tuag unwaith bob blwyddyn a gwelsom dystiolaeth o hyn. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau'r deintyddion. Roedd y deintydd sylfaenol yn derbyn goruchwyliaeth barhaus gan ei hyfforddwr, a dywedodd wrthym ei bod yn cael hen ddigon o gymorth. Dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt sy'n ymwneud â'r gwaith.

Dywedodd y staff wrthym hefyd am gyfarfodydd tîm, sy'n cael eu cynnal bob chwe wythnos. Gwelsom gofnodion y cyfarfod diwethaf, a gadarnhaodd fod pynciau perthnasol sy'n ymwneud â datblygiad y practis a gofal y cleifion wedi cael eu trafod.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel.

Gwelsom gadarnhad bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddogaeth a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi mynychu hyfforddiant yn y cofnodion staff a welsom. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn sicr eu bod yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar sgiliau priodol a hyfforddiant

cyfredol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

Dywedwyd wrthym fod cyfnod cynefino ffurfiol ar waith sy'n galluogi gweithwyr newydd i ddod yn gyfarwydd â'r amgylchedd gwaith. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan staff sy’n hyderus ac yn gyfarwydd â’u gweithle.

Gwelsom dystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant, er nad oedd un o'r deintyddion. Roedd rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i newid ac fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis y bydd aelodau eraill o'r staff yn mynychu'r hyfforddiant hwn yn y dyfodol.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.***

Yn unol â'r rheoliadau[4] perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Gwelsom gofnodion o imiwnedd *Hepatitis B* ar gyfer y staff clinigol. Roedd cofnodion un aelod o staff sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dangos bod angen pigiad atgyfnerthu erbyn mis Hydref 2014, ac nad oedd hyn wedi cael ei gynnal.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai’r practis sicrhau bod y staff wedi derbyn yr holl frechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw bigiadau atgyfnerthu a awgrymir, i amddiffyn rhag feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.***

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw.  Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi cael ei archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Gwelsom fod profion cyfarpar trydanol cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod y practis yn defnyddio teclynnau trydanol bach yn ddiogel, er i'r profion hyn gael eu cynnal dros flwyddyn yn ôl. Yr arfer gorau yw cynnal profion o'r fath bob blwyddyn.

---

[4] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod profion cyfarpar trydanol cludadwy yn cael eu cynnal bob blwyddyn.***

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion leisio pryderon (cwynion), p'un a ydynt yn gleifion preifat neu'n gleifion y GIG. Gwelsom fod angen gwneud diwygiadau bach i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'). Dylai'r polisi gynnwys manylion cyswllt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymunedol lleol.

**Y gwelliant sydd ei angen**

***Dylai gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis gael ei diwygio er mwyn iddi adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella'.***

Roedd gan y practis system briodol ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw cwynion ar lafar na chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi. Gwnaethom argymell bod y practis yn cofnodi'r cwynion hyn ac yn llunio cofnod o'r holl gwynion er mwyn dysgu wrth unrhyw themâu neu dueddiadau a nodir.

**Y gwelliant sydd ei angen**

***Dylai'r practis lunio system i gofnodi cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol.***

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat[5]. Gwnaethom drafod hyn â pherchennog y practis a rheolwr y practis a gytunodd i sicrhau bod pob aelod o staff deintyddol yn diweddaru eu gwiriad y GDG er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n ofynnol i staff eraill y practis feddu ar wiriadau'r GDG, fodd bynnag, mae'n angenrheidiol bod y deintydd sy'n cyflogi staff yn gwneud gwiriadau i sicrhau bod y gweithwyr yn addas i weithio yno. Gwnaethom drafod y broses o wirio staff newydd â rheolwr y practis, a daethom i'r casgliad y gallai'r gwiriadau hyn fod yn fwy cadarn.

---

[5] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy’n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob gwiriad addasrwydd cyn-cyflogaeth yn cael ei gynnal ar gyfer staff newydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg ar gyfer pob swyddogaeth i nodi p'un a oes angen cynnal gwiriad o gofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.***

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion. Nid oedd deintyddfa ar gael ar lawr daear y practis ac nid oedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Holton yn agos at ganol dref Y Barri. Nid oes maes parcio pwrpasol ar gael, er bod maes parcio aml-lawr am ddim yn agos.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis wedi gwneud cais am grant gan Gyngor Bro Morgannwg i adnewyddu wyneb yr adeilad. Bydd hyn yn cynnwys adnewyddu'r gwaith paent a gosod arwyddion newydd. Dywedwyd wrthym fod caniatâd cynllunio wedi cael ei dderbyn a dylai'r gwaith fod wedi'i orffen erbyn diwedd haf 2015.

Gwelsom hysbysiad yn ffenestr y llawr daear a oedd yn nodi amserau agor y practis a'r rhif ffôn i'r cleifion gysylltu ag ef er mwyn derbyn gofal deintyddol y tu allan i oriau mewn argyfwng.  Roedd enw a chymwysterau un deintydd yn cael eu harddangos, ond nid y deintyddion eraill. Dywedwyd wrthym fod arwyddion newydd eisoes wedi cael eu cynllunio i gynnwys enwau a chymwysterau pob deintydd, unwaith bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau.

Nid yw'r practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi ystyried cleifion sydd ag anghenion symudedd ychwanegol. Fodd bynnag, gan nad oes deintyddfa ar y llawr daear ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw gynlluniau i wneud yr adeilad yn hygyrch o'r tu blaen.

Mae'r practis wedi ystyried anghenion y cleifion sydd â nam ar y clyw ac roedd system dolen sain ar gael.

Roedd gan y practis brif dderbynfa ac ystafell aros ar y llawr daear, ac roedd tŷ bach deintyddol yng nghefn y llawr daear, nad oedd yn rhan o'r arolygiad hwn. Roedd man aros llai ar y llawr cyntaf, lle mae'r tair deintyddfa. Mae cyfleusterau'r staff a swyddfa rheolwr y practis ar yr ail lawr. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad bod maint y mannau aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Mae diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y mannau aros, y deintyddfeydd a'r derbynfeydd yn lân, yn daclus, ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Gwelsom yn yr ystafelloedd aros i gleifion mai prin oedd y wybodaeth hyrwyddo iechyd a oedd ar gael i gleifion, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi’r gorau i smygu.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai’r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i'r cleifion, gan gynnwys rhoi’r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.***

Roedd gan y practis dŷ bach neillryw ar y llawr cyntaf, a thŷ bach neillryw i'r staff ar yr ail lawr. Roedd y cyfleusterau i'w gweld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio’n ddiogel. Dywedodd y staff wrthym fod copi o gofnodion electronig yn cael eu cadw bob dydd a'u storio oddi ar y safle. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn cypyrddau ffeilio dan glo yn y dderbynfa. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch y cleifion a’u gwybodaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Holton yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Holton

## Dyddiad yr Arolygiad: 25 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau nad oes uniadau ar unrhyw arwyneb gwaith na'r llawr, lle bo'n bosibl. Lle nad oes modd osgoi uniadau, dylent gael eu selio neu eu hasio.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 paragraff 6.47-6.48] | Rydym wedi gwneud trefniadau i'r mannau hyn gael eu selio:<br>Deintyddfa 2: lle mae'r llawr yn cwrdd â'r wal ac arwyneb gwaith.<br>Deintyddfa 3: Lle mae'r llawr yn cwrdd â'r wal. | Louise Slimings<br>(Rheolwr y practis) | 1 mis |
| 10 | Dylai'r practis symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio fel nad yw'n achosi i aer | Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o osod ffan echdynnu ar nenfwd y man y mae offerynnau | Louise Slimings | Cwblhawyd camau unioni |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | brwnt lifo i'r aer glân mwyach.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 paragraff 6.44] | brwnt yn cael eu prosesu. Nes bod y gwaith hwn yn gallu cael ei wneud, rydym wedi tynnu ffiws y ffan echdynnu i sicrhau na chaiff ei ddefnyddio rhagor. | (Rheolwr y practis) | |
| 11 | Dylai'r practis sicrhau bod swits ynysu'r peiriant pelydr-x yn Neintyddfa 2 yn cael ei osod y tu allan i'r man wedi'i reoli.<br>[Adran Iechyd: Nodiadau Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol ar gyfer Defnyddio Offer Pelydr-x yn Ddiogel (2001) paragraff 3.12] | Rydym wedi gwneud trefniadau ar gyfer gosod swits ynysu'r peiriant pelydr-x yn Neintyddfa 2 y tu allan i'r man wedi'i reoli. | Louise Slimings<br>(Rheolwr y practis) | 1 mis |
| 11 | Dylai'r practis sicrhau bod triniaeth ddigonol ar gael yn y pecyn cyffuriau brys ar gyfer anaffylacsis. Awgrymir 1:1000 o ampylau adrenalin a chwistrelli a nodwyddau cyfatebol.<br>[Canllawiau'r Cyngor Dadebru DU] | Mae pecyn cyffuriau brys y practis yn cynnwys dwy chwistrell awtomatig ('EPI pens'), un ar gyfer oedolyn ac un ar gyfer plentyn i ymdrin ag adwaith alergaidd difrifol.<br><br>Rydym eisoes wedi diweddaru ein pecyn i gynnwys mwy o 1:1000 o ampylau adrenalin a chwistrelli a nodwyddau cyfatebol rhag ofn bod claf yn profi pwl estynedig. | Louise Slimings<br>(Rheolwr y practis) | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 12 | Dylai'r practis greu cofnod o atgyfeiriadau'r cleifion er mwyn mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriad a wneir i asiantaethau eraill lle bo'r angen.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.6] | Rydym wedi mabwysiadu gweithdrefn i gofnodi atgyfeiriadau'r cleifion i arbenigwyr allanol, er enghraifft, Ysbyty Deintyddol y Brifysgol ac orthodontyddion. Byddwn yn archwilio'r atgyfeiriadau bob mis i sicrhau bod y claf wedi derbyn gohebiaeth neu driniaeth gan yr arbenigwr wedi'i atgyfeirio. | Louise Slimings<br><br>(Rheolwr y practis) | Wedi'i gwblhau |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5] | Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Yn anffodus, ymunodd y deintydd wedi'i gymhwyso'n ddiweddar â'r practis un mis ar ôl ein hyfforddiant amddiffyn plant. Ers hynny mae hi wedi trefnu lle ar gwrs hyfforddi.<br><br>Mae rhai o'r staff eisoes wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, a bydd aelodau eraill o staff yn mynychu'r hyfforddiant hwn ar 17.6.15. | Louise Slimings<br><br>(Rheolwr y practis) | Gweithredwyd<br><br>Cwblhau hyfforddiant yr holl staff erbyn 18.6.15<br><br>(3 mis) |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff hyfforddiant mewnol ei gynnal ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod cynefino'r staff. Mae hyn yn cynnwys darllen y polisïau sy'n cynnwys y person y dylid cysylltu ag ef am gyngor pellach a sut i gyfeirio pryderon i'r awdurdod priodol. | | |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod y staff wedi derbyn yr holl frechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw bigiadau atgyfnerthu a awgrymir, i amddiffyn rhag feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2] | Bydd yr un aelod o staff y mae ei bigiad atgyfnerthu *Hepatitis B* wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben yn trefnu apwyntiad ag Iechyd Galwedigaethol ar gyfer hyn. | Louise Slimings<br>(Rheolwr y practis) | 1 mis |
| 15 | Dylai'r practis sicrhau bod profion cyfarpar trydanol cludadwy yn cael eu cynnal bob blwyddyn.<br>[Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989; Gweithredwr Iechyd a Diogelwch] | Rydym wedi chwilio am gyngor ar wefan y Gweithredwr Iechyd a Diogelwch, sy'n nodi "Mae'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 y caiff unrhyw gyfarpar trydanol a allai achosi anafiad ei gynnal mewn cyflwr diogel." Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau'n nodi'n benodol yr hyn sydd angen ei wneud, gan bwy a pha mor aml (h.y. nid yw'n ofyniad cyfreithiol i gynnal archwiliad neu brawf o'r cyfarpar trydanol, nac yn ofyniad cyfreithiol i ymgymryd â hyn bob blwyddyn). | Louise Slimings<br>(Rheolwr y practis) | 1 mis<br>Mae profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu trefnu am 27.3.15 |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, rydym yn hapus i newid pa mor aml mae profion cyfarpar trydanol cludadwy yn cael eu cynnal, sef o bob dwy flynedd i bob blwyddyn, er mwyn cydymffurfio ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | | |
| 15 | Dylai gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis gael ei diwygio er mwyn iddi adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a osodir o dan y cynllun 'Gweithio i Wella'. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3 - 5.1.4] | Diweddarwyd gweithdrefn gwyno'r practis i gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymunedol lleol. | Louise Slimings (Rheolwr y practis) | Wedi'i gwblhau |
| 15 | Dylai'r practis lunio system i gofnodi cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.6 - 5.1.7] | Erbyn hyn mae gennym system ar waith i gofnodi cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol. Bydd y system hon yn rhedeg ynghyd â'n holiaduron adborth cleifion cyfredol a byddwn yn adolygu ac yn gweithredu sylwadau'r cleifion yn ystod ein cyfarfodydd staff misol i wella ein gwasanaethau'n barhaus. | Louise Slimings (Rheolwr y practis) | Wedi'i gwblhau |
| 16 | Dylai'r practis sicrhau bod pob gwiriad addasrwydd cyn-cyflogaeth yn cael ei gynnal ar gyfer staff newydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg ar gyfer pob swyddogaeth i nodi p'un a oes angen cynnal | Rydym yn ffodus iawn bod gennym dîm o staff ymroddedig ond rydym yn croesawu eich argymhellion wrth recriwtio staff yn y dyfodol. Rydym wedi diweddaru ein polisi recriwtio i gynnwys cynnal asesiad risg ar gyfer pob | Louise Slimings (Rheolwr y practis) | Cwblhawyd polisi recriwtio |

| Rhif y Dudalen | Y Gwelliant sydd ei Angen | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gwiriad o gofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru Adran 25a-b] | swyddogaeth i nodi p'un a oes angen cynnal gwiriad o gofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 18 | Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.<br><br>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru Adran 3b-c] | Rydym yn fodlon cynnwys mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn ein hystafelloedd aros.<br><br>Bydd hyn yn ychwanegu at yr hysbysiadau sydd eisoes yn cael eu harddangos yn y deintyddfeydd, a'r taflenni y mae'r deintydd a'r hylenydd yn eu rhoi i'r cleifion. | Louise Slimings<br><br>(Rheolwr y practis) | 1 mis |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):** **Louise Slimings............................................................**

**Teitl:** **Rheolwr y practis..........................................................**

**Llofnod:** **Louise Slimings..............................................................**

**Dyddiad:** **9.3.15..............................................................................**